12.1.2022

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Sgwrsio, selebs, ac ambell i sypreis yn Siop Siarad Owain

Dros yr wythnosau diwethaf mae **Siop Siarad Owain** yn sicr wedi ychwanegu lliw at nosweithiau llymion mis Ionawr.

Yn wyneb cyfarwydd ledled Cymru a thu hwnt ers ei drwmathon 24-awr anhygoel ar gyfer Plant Mewn Angen, mae Owain Wyn Evans wrth ei fodd yn cyflwyno'i sioe newydd ei hun ar S4C.

"Fel mae pawb yn gwybod, fy ddau hoff beth ydy siarad a siopa. Felly mae **Siop Siarad Owain** yn teimlo fel fy sioe ddelfrydol!" meddai Owain.

"Mae fy mywyd i wedi bod yn dipyn o gorwynt ers y drwmathon ar gyfer Plant Mewn Angen, ond dwi wrth fy modd i fod yn ôl ar S4C lle ddechreuais i fy ngyrfa flynyddoedd yn ôl."

Yn rhaglen olaf y gyfres, i'w gweld am 9.00 nos Wener 21 Ionawr, enillydd gwobr Olivier a seren y West End Rebecca Trehearn, gitarydd Pendulum Peredur ap Gwynedd, a chyn-gystadleuydd Miss World Emma Jenkins fydd yn eistedd ar seddi melfed Owain.

Cawn glywed straeon difyr a doniol am yrfaoedd y tri, gan gynnwys hanes esgidiau Cinderella gwerth £4,000 Rebecca Trehearn, profiadau anhygoel Peredur gyda band Natalie Imbruglia yn y 90au, a sut ddaeth Emma Jenkins i ganu 'Calon Lan' o flaen cynulleidfa o filiynau.

"Bydd digon o siarad gwych eto, a hefyd bydda i ar y stryd yn dweud diolch i bobl arbennig," ychwanegodd Owain.

Bydd cyfle i'r cyflwynydd i ymweld â Rhydaman, ei dref enedigol, wrth iddo roi sypreis i arwr tawel sydd wedi codi cannoedd ar filoedd o bunnoedd at achosion da ar hyd y blynyddoedd.

Cawn hefyd gerddoriaeth yn y stiwdio gan Steffan Rhys Williams. A gydag un o gitarwyr gorau Cymru, Peredur ap Gwynedd, yn y Siop Siarad yr wythnos hon, mae gan '*the drumming weatherman'* berfformiad go arbennig i orffen y sioe.

**Siop Siarad Owain**
**Nos Wener 21 Ionawr 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C**

12.1.2022

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Sequins, celebs, and surprises in Siop Siarad Owain

Over the past few weeks **Siop Siarad Owain** has certainly brought some colour to those dreary January evenings.

A familiar face in Wales and beyond since his incredible 24-hour drumathon for Children in Need, Owain Wyn Evans is enjoying presenting his new chat show on S4C.

“As everyone knows, my two favourite things are talking and shopping, so **Siop Siarad Owain** feels like my dream show!” Owain said.

“My life has been a bit of a whirlwind since my drumathon for Children in Need, but I'm thrilled to be back on S4C again where I started my career many years ago.”

In the final programme in the series, at 9.00 Friday 21 January, it's Olivier award winner and West End star Rebecca Trehearn, Pendulum guitarist Peredur ap Gwynedd, and former Miss World contestant Emma Jenkins who are sat on Owain's velvet chairs.

We get to hear interesting and hilarious stories about the three's careers, including the story behind Rebecca Trehearn's £4,000 Cinderella shoes, Peredur's incredible experiences in the 90s as a member of Natalie Imbruglia's band, and how Emma Jenkins came to sing 'Calon Lan' in front of an audience of millions.

“There will be plenty of great chats again, and also I'll be on the street saying thanks to some special people,” Owain added.

The presenter gets the opportunity to visit his hometown of Ammanford to surprise an amazing individual who has raised hundreds of thousands of pounds for charities over the years.

We also get music in the studio from Steffan Rhys Williams. And with one of Wales' finest guitarists, Peredur ap Gwynedd, in the shop this week, the drumming weatherman gives us a very special performance to end the show.

**Siop Siarad Owain**
**Friday 21 January 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Tinopolis production for S4C**